**CYMDEITHAS SENEDDOL Y GYMANWLAD**
**PWYLLGOR GWEITHREDOL CANGEN SENEDD CYMRU**

**ADRODDIAD I GANGEN Y SENEDD AM Y CYFNOD**
**1 Ionawr 2019 - 25 Mawrth 2021**

## Cefndir

Cytunodd Senedd Cymru yn unfrydol ar gynnig a lofnodwyd gan arweinwyr y pedair plaid i wneud cais i gael ei derbyn yn aelod o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA) ar 7 Gorffennaf 1999. Croesawyd Cymru yn ffurfiol yn aelod o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad yng nghyfarfod Cyffredinol y Gymdeithas yn Trinidad ar 19 Medi 1999.

## Strwythur y Gangen

**Mae pob un o Aelodau'r Senedd yn aelod awtomatig o Gangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad**.

## Deiliaid Swyddi

*Llywydd:* Elin Jones AS
*Is-lywydd:* Ann Jones AS
*Cadeirydd:* Rhun ap Iorwerth AS
*Ysgrifennydd:* Manon Antoniazzi,
Prif Weithredwr a Chlerc Senedd Cymru

*Ysgrifennydd Dros Dro*:
Al Davies, Uwch-reolwr Cysylltiadau Rhyngwladol a Phrotocol

## Pwyllgor Gweithredol y Gangen

Rhianon Passmore AS
David Rowlands AS
David Melding AS (Gorffennaf 2020- presennol)
Mohammad Asghar AS (Ionawr 2019-Mehefin 2020)

**ADRODDIAD Y CADEIRYDD**

Oherwydd yr effaith y mae’r pandemig COVID-19 wedi'i chael ar waith y Gangen, yn ogystal ag etholiadau arfaethedig y Senedd, mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu cyfnod hirach nag arfer.

Bu 2019 yn flwyddyn arbennig o brysur a chynhyrchiol i Gangen y Senedd o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad. Mae rhai uchafbwyntiau nodedig i'w crybwyll sy’n cynnwys cyfranogiad y Gangen yn y Gynhadledd Ranbarthol arloesol yn Guernsey; Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad yn Uganda, yn ogystal â'n cynrychiolaeth gan Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru yn Senedd Ieuenctid y Gymanwlad yn Delhi Newydd.

Cynhaliwyd digwyddiad cofiadwy ar Ddiwrnod y Gymanwlad hefyd i ddathlu'r berthynas rhwng Cymru ac Affrica ac rydym wedi mwynhau croesawu dirprwyaethau seneddol o nifer o wledydd, gan gynnwys y Maldives a Sri Lanka.

Mae ein Cangen wedi parhau i fod â phresenoldeb cryf mewn nifer o weithgareddau *Seneddwragedd y Gymanwlad*, gyda Joyce Watson AS a Rhianon Passmore AS yn arwain ein cynrychiolaeth yn y rhwydwaith hwn.

Wrth gwrs, newidiodd Covid-19 natur a ffocws ein gwaith yn sylfaenol ac ni fu unrhyw ymweliadau na chynadleddau mewnol nac allanol yn gorfforol ers mis Mawrth 2020.

Er gwaethaf hyn, mae cyfoeth o weithgarwch wedi parhau wrth i Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad addasu i weithio’n rhithwir. Yn ogystal â mwynhau cymryd rhan mewn nifer o gynadleddau a rhaglenni rhithwir, mae Cangen y Senedd hefyd wedi manteisio ar y llwyfan i drafod ac arddangos y ffordd ystwyth ac arloesol yr ymatebodd Senedd Cymru i'r pandemig; gyda llawer o ddiddordeb yn hyn yn rhyngwladol.

Ym mis Mehefin 2020 cawsom ein tristáu gan farwolaeth sydyn Mohammad Asghar AS. Oscar oedd yr Aelod a fu'n gwasanaethu hiraf ar Bwyllgor Gweithredol ein Cangen; yn cynrychioli Grŵp Ceidwadwyr Cymru yn barhaus ers 2010. Roedd wedi cynrychioli’r Gangen mewn nifer o Gynadleddau’r Gymdeithas, gan gynnwys, yn fwyaf diweddar, yng Nghynhadledd Seneddol y Gymanwlad ym Mangladesh yn 2017, yn ogystal ag yn Rhanbarth Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir yn Guernsey yn 2019.

Roeddem yn falch o groesawu David Melding AS, cyfranogwr hirsefydlog yng

ngwaith Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad, i wasanaethu Grŵp Ceidwadwyr Cymru am weddill tymor y Senedd hon.

Un darn sylweddol o waith y mae'r Gangen wedi'i wneud dros y misoedd diwethaf yw adolygu ac adnewyddu ein cyfansoddiad.
Bydd y rheolau newydd hyn, yr ymgynghorwyd arnynt gydag Aelodau o bob grŵp plaid yn y Senedd, wrth symud ymlaen i'r Chweched Senedd, yn gwella ein llywodraethu. Mae'r newidiadau allweddol yn cynnwys dulliau i sicrhau: cydbwysedd tecach rhwng y rhywiau; hyrwyddo cylchred ar gyfer swyddi allweddol y Gangen yn ogystal â sicrhau bod cyfleoedd i gymryd rhan yng nghynadleddau'r Gymdeithas yn cael eu dyrannu'n decach.

Ar nodyn personol, hoffwn ddiolch i Aelodau Pwyllgor Gweithredol y Gangen am eu cyfraniad a'u cefnogaeth. Hoffwn hefyd ychwanegu cymaint yr wyf wedi mwynhau fy nghyfnod fel Cadeirydd Cangen y Senedd o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad. Rwyf wedi gweld drosof fy hun y cyfleoedd gwerthfawr y mae'r rhwydwaith yn eu darparu i ddysgu a chaffael arfer gorau yn ogystal ag arddangos ein gwaith yma yng Nghymru.

Gobeithio y caf gyfle i ailymgysylltu â gwaith y Gymdeithas yn y dyfodol a byddwn yn annog Aelodau eraill i wneud yr un peth.

***Rhun ap Iorwerth AS.***
*Cadeirydd Cangen y Senedd o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad.*

**<u>GWEITHGAREDDAU YN YSTOD CYFNOD YR ADRODDIAD</u>**:

## 1. <u>Cymryd rhan yng Nghynadleddau’r Gymdeithas</u>

***48ain Cynhadledd BIMR,***
***Guernsey, Mai 2019***

Roedd Rhun ap Iorwerth AS, Cadeirydd y Gangen, Mohammad Asghar AS, Rhianon Passmore AS, David Rowlands AS a Joyce Watson AS yn bresennol yn yr 48ain Gynhadledd Ranbarthol hon a oedd yn trafod y thema amserol “*Newyddion Ffug a Chamwybodaeth*”. **<u>Adroddiad</u>**

***Cynhadledd Ranbarthol Caribïaidd***
***Trinidad, Gorffennaf 2019***

Dewiswyd Cadeirydd y Gangen, Rhun ap Iorwerth AS i gynrychioli ein Rhanbarth BIMR yn y gynhadledd hon. **<u>Adroddiad</u>**

***64ain Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad***
***Uganda, Medi 2019***

Ann Jones AS, Is-lywydd y Gangen, arweiniodd ein cynrychiolaeth yn y gynhadledd ryngwladol hon o’r Gymdeithas, gyda Delyth Jewell AS a gymerodd ran hefyd mewn rhaglen a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru yn Mbale. **<u>Adroddiad</u>**

***Cynhadledd Rithwir BIMR***
***Dan arweiniad Cangen Malta, Medi 2020***

Roedd y Gynhadledd rithwir hon, y gyntaf o'i fath ar gyfer ein Rhanbarth, yn canolbwyntio'n briodol ar y thema *Ymateb Seneddau i Bandemig COVID-19*. Cymerodd Pwyllgor Gwaith llawn Cangen y Senedd ran yn y gynhadledd, gyda Rhun ap Iorwerth AS, Cadeirydd y Gangen, yn rhoi prif gyflwyniad.

## 2. Seneddwragedd y Gymanwlad

***Rhaglen Diwrnod Rhyngwladol y Menywod***
***Marlborough House, Llundain***
***Mawrth 2019***

Joyce Watson AS a gymerodd ran yn y rhaglen hon fel Cadeirydd Rhanbarthol Seneddwragedd y Gymanwlad.

***Rhaglen Allgymorth BIMR Seneddwragedd y Gymanwlad***
***Nicosia, Cyprus***
***Mehefin 2019***

Arweiniodd Joyce Watson AS y rhaglen dau ddiwrnod hon i Gyprus. Cynhaliwyd ystod eang o gyfarfodydd i archwilio ac annog mwy o gyfranogiad menywod mewn gwleidyddiaeth a bywyd cyhoeddus.

***Gweithdy San Steffan ar Graffu sy'n Sensitif i Ryw***
***Llundain, Mehefin 2019***

Ann Jones AS, Is-lywydd y Gangen, a Rhianon Passmore AS oedd yn cynrychioli'r Gangen yn y digwyddiad hwn yn San Steffan.

***6ed Cynhadledd BIMR Seneddwragedd y Gymanwlad***
***Jersey, Medi 2019***

Joyce Watson AS a Rhianon Passmore AS a gynrychiolodd y Gangen yn y Gynhadledd hon.

***7fed Cynhadledd BIMR Seneddwragedd y Gymanwlad***
***Ynysoedd Falkland, Chwefror 2020***

Joyce Watson AS a Rhianon Passmore AS a gynrychiolodd y Gangen yn y gynhadledd hon, a'r thema oedd *Goresgyn Stereoteipiau mewn Cymunedau Bach* **Adroddiad**

***8fed Cynhadledd BIMR Seneddwragedd y gymanwlad***
***Rhithwir, Chwefror 2021***

Rhianon Passmore AS a Suzy Davies AS a gynrychiolodd y Gangen yn y Gynhadledd hon a'r thema oedd *Blaenoriaethu Cynrychiolaeth Menywod a Hyrwyddo Seneddau sy'n Sensitif i'r Rhywiau.*

## 3. Seneddwyr y Gymanwlad ag Anableddau

Mae Ann Jones AS, Is-lywydd y Gangen, wedi chwarae rhan flaenllaw yn y rhwydwaith Seneddwyr y Gymanwlad ag Anableddau, a sefydlwyd yn ddiweddar. Mae hyn wedi cynnwys cadeirio gweithdy llwyddiannus ar "*Hwyluso Pobl ag Anableddau fel Etholwyr, Ymgeiswyr a Deddfwyr*" yng Nghynhadledd Seneddol y Gymanwlad yn Uganda, yn ogystal â chyfrannu at gyfres o **fideos** i hyrwyddo'r angen am seneddau hygyrch.

Ym mis Medi 2020, cafodd Ann Jones AS ei hethol gan seneddwyr ar draws ein Rhanbarth ni o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad i fod yn *Hyrwyddwr Seneddwyr ag Anableddau* cyntaf ar ei rhan.
Ers hynny, mae Ann Jones AS wedi gwahodd eiriolwyr mewn seneddau eraill yn y DU i gymryd rhan mewn trafodaethau am flaenoriaethau. Mae hefyd wedi cwrdd â'r wyth arall o Hyrwyddwyr Anableddau y Gymdeithas er mwyn bwrw ymlaen â gwaith y rhwydwaith pwysig newydd hwn o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad.

## 4. Cefnogi Seneddau eraill y Gymanwlad

***Rhaglen gweithdy Rheolau Sefydlog Senedd Gambia***
***Hydref 2019***

Fel rhan o'n gwaith ymgysylltu parhaus â'r Gambia mewn partneriaeth â'r Gymdeithas / WFD, cymerodd David Melding AS ran yn yr hyfforddiant gweithdy arbenigol hwn yn Senedd Gambia. **Adroddiad**

***Seminar Ôl-Etholiadol***
***Montserrat, Chwefror 2020***

David Melding AS a gynrychiolodd ein Cangen a'n Rhanbarth yn y seminar ôl-etholiadol hon. **Adroddiad**
**Linc** i fyfyrdodau David Melding o'i brofiad.

***Gweithdy Pwyllgorau Dethol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad, y Deyrnas Unedig, ar gyfer senedd Anguilla***
***Gorffennaf 2020***

Dewiswyd David Melding AS i gymryd rhan yn y gweithdy hwn, fel rhan o gydweithrediad rhwng Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad, y Deyrnas Unedig ac Ysgrifenyddiaeth y Gymdeithas. Cafodd y Seminar ôl-etholiadol rithwir ei theilwra i ddiwallu anghenion seneddwyr newydd-etholedig, yn ogystal â'r rheini sydd wedi'u hailethol, ac roedd yn canolbwyntio ar *Rôl Pwyllgorau Dethol*, *Rôl y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus*, *Ysgrifennu Adroddiadau a Chyflawni Effaith*.
**Linc**

***Gweithdy PCC Anguilla Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad, y DU***
***Tachwedd 2020***

Cymerodd Rhianon Passmore AS (a Chlerc Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd Fay Bowen) ran yn y Gweithdy hwn, gan arwain ar sesiwn yn edrych sut i barhau'n effeithiol fel Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus mewn byd rhithwir. ***Adroddiad***

## 5. Ymgysylltu â Phobl Ifanc Cymru

***Nodi Diwrnod y Gymanwlad***
***San Steffan, Mawrth 2019***

Cynrychiolwyd y Gangen gan ddau berson ifanc yn y digwyddiad swyddogol i Nodi'r Gymanwlad. Cymerodd Laura Johnson a Zach Evans ran yn y rhaglen, a'r thema oedd "*Cymanwlad Cysylltiedig*".

***10fed Senedd Ieuenctid y Gymanwlad***
***Delhi Newydd, India***
***Tachwedd 2019***

Cydweithiodd y Gangen â thîm Senedd Ieuenctid Cymru er mwyn hwyluso ein cynrychiolaeth yn y gynhadledd hon. Dewiswyd Rhian Shillabeer a Talulah Thomas, Aelodau o'r Senedd Ieuenctid, i gynrychioli'r Senedd yn Senedd Ieuenctid y Gymanwlad yn Delhi Newydd, India. **Adroddiad**

## 6. Ymateb y Senedd i Covid-19

**Digwyddiad *Bord Gron BIMR***
***Mehefin* 2020**

Bwriad y digwyddiad hwn oedd darparu llwyfan i seneddwyr gael cipolwg o astudiaeth achos y Senedd mewn ymateb i'r pandemig Covid-19.

Rhoddwyd y prif gyflwyniad gan Rhun ap Iorwerth AS, Cadeirydd y Gangen, a wnaeth rannu'r prif wersi a ddysgwyd yn sgil yr arloesiadau, a pha mor gyflym roedd Senedd Cymru wedi ymateb i COVID-19.

Mae mwy o fanylion a chrynodeb o'r digwyddiad Bord Gron ar gael **yma**

***Gweithgor BIMR ar Covid-19***

Mae aelodau o wahanol Ganghennau BIMR wedi gwirfoddoli i arwain ffrydiau gwaith ar themâu strategol amrywiol, sy'n gysylltiedig â'r Pandemig Covid.

Rhianon Passmore AS sydd wedi bod yn arwain ar y thema **Seneddau Ystwyth ac Effeithiol** a bydd yn cyflwyno gweminar i'r Rhanbarth cyn bo hir ar brofiad y Senedd.

## 7. Ymweliadau nodedig a gweithgareddau eraill.

***Ymweliad Llywydd a Chadeirydd y Gangen â Botswana a De Affrica, Chwefror – Mawrth 2019***

Roedd yr ymweliad â senedd Botswana yn gyfle i werthuso'r gefnogaeth barhaus y mae'r Senedd yng Nghymru wedi'i darparu mewn amrywiaeth o feysydd.

Roedd ymweliad byr dilynol â Senedd Daleithiol y Western Cape yn Cape Town yn cynnwys trafodaeth ar nifer o faterion sydd o gyd-ddiddordeb, megis llywodraethu seneddau datganoledig; materion ynghylch capasiti; Polisi Urddas a Pharch y Senedd yn ogystal â Senedd Ieuenctid Cymru. Mae adroddiad yr ymweliad ar gael yma

***Ymweliad o dan arweiniad y Llywydd â Chanada***
***Chwefror 2020***

Aeth y Llywydd, ynghyd ag Ann Jones AS, y Dirprwy Lywydd a Suzy Davies AS, Comisiynydd y Senedd, ar ymweliad â Chanada.

Roedd y rhaglen, a oedd yn cynnwys rhaglenni swyddogol yn y senedd ffederal yn Ottawa a Chynulliad Cenedlaethol Quebec, yn gyfle i drafod ystod o faterion o ddiddordeb megis gweithio'n ddwyieithog, cydraddoldeb rhywiol, ymgysylltu â dinasyddion ac archwilio a chraffu ariannol. Mae adroddiad yr ymweliad ar gael yma

***Digwyddiad y Gymanwlad/Rhyngwladol "Cymru a'r Byd"***
***Senedd, Mawrth 2019***

Cynhaliwyd derbyniad amser cinio yn y Senedd i nodi Diwrnod y Gymanwlad. Thema'r derbyniad oedd "*Cymru ac Affrica*" ac roedd yn cynnwys areithiau gan Lywydd a Chadeirydd y Gangen yn ogystal â pherfformiad cofiadwy gan Ballet Nimba.

***Fforwm Seneddol y Gymanwlad***
***Newid Hinsawdd: Paratoi at Glasgow COP26***
***Cynhadledd Rithwir, Mawrth 2021***

Mae sawl Aelod o Bwyllgor *Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig* y Senedd wedi cymryd rhan yn y fforwm hwn.

***Hyfforddiant Cennad Arsylwi Etholiad***

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae Rhun ap Iorwerth AS, Cadeirydd y Gangen, Rhianon Passmore AS a David Melding AS wedi dilyn hyfforddiant Cennad Arsylwi Etholiad a drefnwyd gan Ysgrifenyddiaeth BIMR.

## 8. Ymwelwyr â'r Senedd o'r Gymanwlad.

Mae'r Gangen wedi helpu i ddatblygu rhaglenni ar gyfer ymwelwyr rhyngwladol â'r Senedd, gan gynnwys Llefarwyr, Uchel Gomisiynwyr, a dirprwyaethau a swyddogion o wledydd a seneddau'r Gymanwlad, gan gynnwys Canada. Awstralia (ffederal a thaleithiol), India, Singapore, Y Gambia, Maldives a Sri Lanka.

**9.** **Cynllun Nawdd y Gangen** (parhaus).
Atgoffir yr Aelodau am y cynllun hwn, ac fe'u hanogir i chwilio am gyfleoedd i wneud cais am gefnogaeth ar gyfer ymweliadau astudio â Seneddau eraill y Gymanwlad. Dylai Aelodau sydd â diddordeb yn y cyfle hwn nodi hynny, yn y lle cyntaf, mewn neges e-bost at Al Davies, Ysgrifennydd Dros Dro'r Gangen: (al.davies@senedd.cymru) gan roi amlinelliad byr a chynllun busnes ar gyfer eu hymweliad astudio arfaethedig.

**10.** **Edrych tua'r dyfodol**

2021

- Cynhadledd BIMR, Belfast (Medi)


2022

- Cynhadledd BIMR, St Helena
- Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad, Halifax, Nova Scotia (Canada).

25 Mawrth 2021

## Cipolwg ar Weithgarwch Cangen y Senedd o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad 2019-2021

**Atodiad**



# Allwedd y Map

**BIMR** British Islands and Mediterranean Region

**CWP** Commonwealth Women Parliamentarians

**CPA** Commonwealth Parliamentary Association

Ymweliad mewnol

Ymweliad allanol

Ymweliad rhithwir